MIRAIN GWYN – LLETY TALDRAETH, PENRHYNDEUDRAETH

Heb y diwydiant llechi fysa Taldraeth ddim yn bodoli. Cafodd y tŷ ag Eglwys y Drindod ym Mhenrhyndeudraeth ei adeiladu gan deulu'r Oakleys yn 1858, a ma' na dipyn o lechi yn rhan o'r adeilad. Mi wnaethom ni ei brynu yn 2013, a'i enwi'n Taldraeth gan ei fod yn edrych allan dros y traeth. Da ni wedi cymryd gofal i gadw nodweddion gwreiddiol y tŷ a'r ardd, ac mae'r ardd yn cynnwys waliau cerrig Fictorianaidd. Mae'r lle yn llawn o hen ddodrefn Cymreig sydd wedi eu casglu gan fy rhieni dros gyfnod o 40 mlynedd.